
## Computer games and the Law


Under the regulations, retailers could face a prison sentence of up to six months and a fine of up to £5,000 for selling a game to someone under the age-rating classification.

The PEGI system insists that all games sold in the UK offer guidance on the packaging for consumers in the form of visual symbols to indicate the games' content under the headings of reference to sex, drugs, fear, gambling, violence, bad language and discrimination.

### PEGI Symbols






## HELPFUL ADVICE

Parents and other adults should not purchase games that are unsuitable for children and young people, as this exposes them to unsuitable adult material. Some games have bad language, mature humour, scenes of a sexual nature, discrimination, drug use, or horror. Games are not rated 16 or 18 because of the level of difficulty, but because of the mature content.

- Check the age classification on the packaging or check the PEGI website.
- Play video games with your children, talk with them about the games they play and why certain games are not suitable.
- Don't let children play computer games late into the night, it could leave them feeling tired the following day.
- Online games can require players to interact with fellow gamers, you do not know who these players are – advise your children not to give out personal details and to let you know if they experience inappropriate behaviour.
- Set limits by using parental control tools on the game console or on your wi-fi router.
- Keep consoles and other digital devices out of the child's bedroom at night.

2535-19 Designed & printed by SWPPRINT

# Gemau Cyfrifiadur....

Caiff pob gêm a werthir yn y DU ei rheoleiddio o dan system o'r enw PEGI, sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon gwerthu gemau sydd ond yn addas i bobl dros 12, 16 ac 18 oed i blant a phobl ifanc o dan yr oedrannau hynny.



SchoolBeat.cymru


## Gemau cyfrifiadur a'r Gyfraith


O dan y rheoliadau, gallai manwerthwyr wynebu dedfryd o hyd at chwe mis yn y carchar a dirwy o hyd at £5,000 am werthu gêm i rywun islaw'r dosbarthiad oedran.

Mae system PEGI yn mynnu bod pob gêm a werthir yn y DU yn cynnig canllawiau ar y deunydd pecynnu i ddefnyddwyr ar ffurf symbolau gweledol i ddangos cynnwys y gêm o dan y penawdau rhyw, cyffuriau, arswyd, gamblo, trais, iaith anweddus a gwahaniaethu.

### Symbolau PEGI






## CYNGOR DEFNYDDIOL

Ni ddylai rhieni nac oedolion eraill brynu gemau sy'n anaddas i blant a phobl ifanc, am fod hyn yn achosi iddynt weld deunydd sydd ond yn addas i oedolion. Mae rhai gemau yn cynnwys iaith anweddus, hiwmor aeddfed, golygfeydd rhywiol, gwahaniaethu, defnyddio cyffuriau, neu arswyd. Nid oherwydd pa mor anodd yw gemau y cânt eu dosbarthu'n rhai sydd ond yn addas i bobl dros 16 neu 18 oed, ond oherwydd cynnwys aeddfed.

- Edrychwch ar y dosbarthiad oedran ar y deunydd pecynnu, neu edrychwch ar wefan PEGI.
- Chwaraewch gemau cyfrifiadur gyda'ch plant, siaradwch â nhw am y gemau maent yn eu chwarae a pham nad yw rhai gemau'n addas.
- Peidiwch â gadael i blant chwarae gemau cyfrifiadur yn hwyr gyda'r nos – gallai hyn olygu y byddant wedi blino y diwrnod wedyn.
- Mewn rhai gemau ar-lein, gall fod angen rhyngweithio â chwaraewyr eraill. Nid ydych yn gwybod pwy yw'r bobl hyn – dywedwch wrth eich plant am beidio â rhannu manylion personol ac am roi gwybod i chi os byddant yn gweld ymddygiad amhriodol.
- Pennwch gyfyngiadau drwy ddefnyddio adnoddau rheolaeth rhieni ar y consol gemau neu ar eich llwybrydd wi-fi.
- Cadwch gonsolau a dyfeisiau digidol eraill allan o ystafell wely'r plentyn yn ystod y nos.

2535-19 Dyluniwyd ac Argraffwyd gan **Argraffu HDC**

# Computer Games....

All games sold in the UK are regulated under a system called PEGI, which makes it illegal to sell 12, 16 and 18 rated video games to children and young people under that age.



SchoolBeat.cymru